

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Gwybodaeth am y rhaglen

Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau MSc yn seiliedig ar ddarllen gwerslyfr gosod unigol dan arweiniad. Bydd angen i fyfyrwr gwblhau chwe modiwl gwerth 180 o bwyntiau i ennill y radd.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae theori rhif â'i gwreiddiau mewn hanes hynafol ond, yn enwedig ers yr ail ganrif ar bymtheg, mae wedi cael ei datblygu'n sylweddol gan ddefnyddio syniadau o lawer o ganghennau o fathemateg. Er bod y pwnc yn un aeddfed, mae llawer o broblemau yn dal i fodoli sy'n hawdd eu nodi a'u deall – er enghraifft, a oes eilrif >2 nad yw'n gyfanswm dau rif cysefin? Yn ystod y modiwl hwn bydd myfyrwr yn astudio theori rhif drwy ddefnyddio technegau dadansoddi, fel integriad amliniau a chalcwlws gweddillion. Mae'r modiwl yn seiliedig ar ddarlleniadau o *Introduction to Analytic Number Theory* (T. M. Apostol, 1986, pedwerydd argraffiad, Springer-Verlag).

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl, ynghyd â thystiolaeth o astudiaethau ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg megis gradd uwch mewn mathemateg
- tystiolaeth o weithio mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o gyfran fawr o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- y gallu i gyflwyno mathemateg yn electronig ac anodi dogfennau PDF
- y parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - o gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - o systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwr
 - o e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - o meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant) i gyfathrebu â myfyrwr lle y bo'n gymwys
 - o marcio aseiniadau myfyrwr a gyflwynir yn electronig (ar ffurf PDF) ar y sgrin (eTMAs)

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol

- profiad o addysgu ac arholi, yn enwedig ym maes addysg o bell ar lefel ôl-raddedig
- profiad o addysgu yn y maes pwnc arbenigol perthnasol ar lefel ôl-raddedig neu drydedd flwyddyn

Bydd gofyn i chi farcio aseiniadau'n electronig. Bydd hyn ar ffurf PDF

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	2
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	2.5